# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 3ydd 2026 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eifion Davies, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Maldwyn Jones a'r clerc.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant ger y ceisiadau ariannol perthnasol.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd swyddog yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cadarnhau eu bod wedi gofyn i weithlu Cyngor Gwynedd gwblhau'r gwaith canlynol,

- tyllau ar yr A494 ger Ty'n Fedw, Bethel a gyferbyn a mynedfa Tomen Gastell, Llanfor.
- carreg wedi dod i ffwrdd o'r wal rhwng Cynlas a Thŷ Nant, Cefnddwysarn.
- sbwriel angen ei glirio o gwmpas y goleuadau traffig ar yr A494, Bethel.

ii) Roedd Cyngor Gwynedd wedi trefnu i lenwi'r tyllau ar yr B4401, Llandderfel.
iii) Roedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau mae cyfrifoldeb Dŵr Cymru oedd y draen ym mhentref Sarnau a'u bod wedi eu hysbysu o'r difrod.
iv) Yn dilyn y cwynion a basiwyd ymlaen ynglŷn â'r diffyg graeanu'r ffyrdd gwledig cafwyd eglurhad o'i Cynllun Gweithredol Gaeaf.
v) Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â chael bin halen newydd yn lle'r un a oedd wedi cael ei falu ger Henblas, Llandderfel. Gan eu bod wedi cyflenwi biniau newydd i'r safle yma o'r blaen oherwydd difrod, awgrymwyd y byddai'n well ei symud i leoliad mwy diogel. Yn dilyn trafodaeth roedd y cynghorwyr o'r farn nad oedd hyn yn ymarferol.

b) Lloches bws newydd i Lanfor.
Roedd y cadeirydd a'r clerc wedi cwrdd â swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd ac wedi cael cyngor lle dylai'r lloches newydd gael ei osod. Gofynnwyd i'r clerc cysylltu â Llywodraeth Cymru i gael caniatad ysgrifenedig, Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r hawl cynllunio a holi am brisiau i osod y sylfaen.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned Gwynedd 2026. Trafodwyd syniadau a byddai'n bosib ceisio am, a gofynnwyd i'r clerc anfon at bwyllgorau'r neuaddau lleol yn gofyn am unrhyw syniadau.
ii) Holiadur Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.
iii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mawrth 2026.

b) Cyfoeth Naturiol Cymru.
i) Canolfan Tryweryn – Cyfle Datblygu.

c) Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg.
i) Polisi'r Arolwg Ordnans ar eu defnydd o enwau lleoedd ar eu mapiau o Gymru. Cytunwyd i gefnogi eu cais i ysgrifennu at Arolwg Ordnans yn gofyn iddynt newid eu polisi a pheidio gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol,

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.



Arwyddwyd:……………………………………… Dyddiad:………………………

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2024-25.
Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.

b) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eto eleni.

c) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27.
i) Nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth)
2) CTHEM (TWE)
3) Eilir Jones Evans, (Ail bwyntio lloches bws Llanfor)
4) Un Llais Cymru (Tal aelodaeth)
5) Cwmni Pum Plwy Penllyn (Cyfraniad tuag at gostau torrri llwybrau troed)
6) Neuadd Sarnau (Llogi)
7) Neuadd Mynach (Llogi)
8) Neuadd Bro Derfel (Llogi)
Cymeradwyd hefyd i'r clerc dalu am nwyddau i'r difib's ac Archwilio Cymru pan dderbynir yr anfoneb.

d) Ceisiadau ariannol
Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-
1) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)
2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
3) Neuadd Bro Derfel - £450.
4) Ysgol Bro Tryweryn - £300 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
5) Ysgol Ffridd Y Llyn - £300 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
6) Ysgol Godre'r Berwyn - £100
7) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn - £100
8) Hosbis Tŷ Gobaith - £50
9) Hosbis Tŷ'r Eos - £50
10) CFFI Meirionnydd - £200

11) Cantref - £100
12) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
13) Ambiwlans Awyr Cymru -£100
14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
15) Urdd Cylch Meirionnydd - £100
16) Macmillan - £50
17) Marie Curie Gwynedd - £50
18) Neuadd Bro Derfel – toiledau cyhoeddus - £50
19) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod - £50
20) Ronald McDonald House - £50
21) Llen y Llannau - £50



Arwyddwyd:……………………………………… Dyddiad:………………………

**vii) Materion lleol.**

a) Pryderon am orffeniad gwaith adeiladu gorlifan atodol newydd yn Llyn Celyn

i) Roedd rhai o’r trigolion lleol yn bryderus am rhai agweddau o orffeniad y gwaith a waned ar argae Llyn Celyn. Roedd y cadeirydd a’r clerc am gwrdd â swyddogion Dŵr Cymru i drafod y materion.

b) Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwynion canlynol ymlaen i’r adrannau perthnasol:-

i) Pwll o ddŵr yn hel ar yr A4212, ar ol pasio cyffordd Rhyduchaf.
ii) Cyflwr y ffordd gyferbyn a mynedfa pentref Sarnau.
iii) Gofynnwyd i’r clerc gysylltu â’r Heddlu lleol a gofyn iddynt gael gair a’r trigolion sy’n parcio eu ceir gyferbyn a chyffordd sgwar Trefalgar ac yn amharu a mynediad y bws cyhoeddus i mewn i bentref Llandderfel.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 5ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd:……………………………………… Dyddiad:………………………